# Atodiad A - Bidiau Refeniw 2013-14

| Rhif | Rheswm tros y bid | Person Cyfrifol | Amlinelliad o'r Mater | Manylion y bid a ddaeth i law | | Argymhelliad | Symiau Argymhellir | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) |
| **Adran Addysg** | | | | | | | | |
| ADD1 | Swyddog Data | Dewi R Jones<br>Owen Owens | Bid i gyflogi swyddog i ymgymryd â'r rôl o gasglu a phrosesu data Gwynedd a pharatoi'r ffordd at weithredu o fewn y trefniadau rhanbarthol safonol o ran casglu, prosesu a dadansoddi data ysgolion. Mae trefn hanesyddol wedi golygu ein bod wedi gallu ariannu'r maes hwn trwy gyfrwng cytundeb Cynnal hyd yma, ond oherwydd y newid yn nhrefniadau cefnogi ysgolion, ni fydd yr adnodd hwnnw ar gael i'r gwaith yma.<br>O ran gwariant fesul disgybl ar swyddogaethau canolog yn ymwneud ag ysgolion (ac eithrio Cludiant):- Gwynedd yw'r 5ed uchaf ymhlith 9 awdurdod y "teulu". H.y. ar y canolrif (sef £322.52 fesul disgybl) | 59,814 | | I'w gyllido o adnoddau'r Adran oni fydd y gwaith yn rhan o gytundeb y Consortiwm. | 0 | 0 |
| ADD2 | ONE - Rheolwr Rhaglen Rheolaeth Gwybodaeth Rhanbarthol | Dewi Jones<br>Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau | Cyfraniad Gwynedd tuag at benodi Rheolwr Rhaglen fydd yn cysoni'r ffordd mae'r cynghorau yn defnyddio'r rhaglen ONE, ac i weithredu'r modiwlau newydd sydd wedi cael eu prynu. Mae cynghorau Gogledd Cymru yn cydweithio i sefydlu Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol **(GEGYR)** i wella perfformiad yr ysgolion rhanbarthol. | | 13,000 | I'w osod yn erbyn costau sefydlu'r prosiect. | 0 | 0 |
| ADD5 | ONE – Swyddog Cysoni Data | Dewi Jones, Addysg<br>Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau | Penodi Swyddog Cysoni Data dros dro i wneud darn sylweddol o waith ar y data hanesyddol gedwir yn ONE. Yn ychwanegol, mae angen cysoni data rhwng ONE a SIMS (sef system yr ysgolion)<br>O ran gwariant fesul disgybl ar swyddogaethau canolog yn ymwneud ag ysgolion (ac eithrio Cludiant):- Gwynedd yw'r 5ed uchaf ymhlith 9 awdurdod y teulu. | | 17,354 | I'w osod yn erbyn costau sefydlu'r prosiect. | 0 | 0 |
| ADD6 | CRBs Athrawon Llanw | Dewi R Jones<br>Owen Owens | Adroddiad Archwilwyr mewnol wedi amlygu'r gofyn i adnewyddu gwiriadau CRB athrawon llanw yn gyfnodol (pob 3 blynedd) | 7,817 | 23,452 | I'w ariannu o'r twf yng nghyllidebau'r ysgolion. | 0 | 0 |
| ADD8 | CRBs Staff ysgol - cyfnodol | Dewi R Jones<br>Owen Owens | Mae adolygiad o ofynion Diogelu Plant wedi amlygu'r angen i gynnal gwiriadau CRB ar bob aelod o staff ysgol yn gyfnodol (bob 3 blynedd) | 44,616 | | I'w ariannu o'r twf yng nghyllidebau'r ysgolion. | 0 | 0 |
| ADD9 | CRBs Staff ysgolion wedi'u penodi cyn 2002 | Dewi R Jones<br>Owen Owens | Daeth gofynion gwiriad CRB ar gyfer staff ysgol yn weithredol ar ôl 1/9/2002.<br>Mae adolygiad o ofynion Diogelu Plant wedi amlygu'r angen i gynnal gwiriadau CRB ar bob aelod o staff ysgol (pryd bynnag y'u penodwyd) | | 7,128 | I'w ariannu o'r twf yng nghyllidebau'r ysgolion. | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Adran Addysg** | | | | **112,247** | **60,934** | | **0** | **0** |
| | | | | | | | | |
| **Adran Adnoddau Dynol** | | | | | | | | |
| AD2 | Gwirio Cofnodion Troseddol Staff mewn swyddi wedi'u rheoleiddio (CRB) | Geraint Owen | Bwriedir sicrhau bod gwiriadau CRB yn cael eu cynnal a'u hadnewyddu pob tair blynedd ar gyfer pob unigolyn sy'n cyflawni swyddogaeth "reoledig", e.e Gwasanaeth Ieuenctid, Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd, Croeswyr Plant Ysgol ayyb. Mae'r polisi cyfredol yn mynnu gwiriadau wrth benodi'r staff, ond heb bob amser sicrhau adnewyddu pob 3 blynedd. | 15,000 | | Ariannu'r bid i sicrhau gweithredu polisi o adnewyddu CRB pob 3 blynedd, yn unol a'r arfer gorau. | 15,000 | |
| **Cyfanswm Adran Adnoddau Dynol** | | | | **15,000** | **0** | | **15,000** | |
| | | | | | | | | |
| **Adran Cyllid** | | | | | | | | |
| CYLL1 | Costau ariannu Cynllun Cymorth Treth Cyngor lleol fydd yn disodli Cynllun Budd-dal Treth Cyngor cenedlaethol. | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid<br>Anthony V Jones, Uwch Reolwr Refeniw | Yn 2013 mae cynllun Budd-dal Treth Cyngor yn cael ei ddisodli gan y cynllun Cymorth Treth Cyngor lleol. I weithredu'r drefn newydd fydd angen datblygu ein meddalwedd craidd cyfredol. Mae cost o £59,000 i ddatblygu ein systemau craidd cyfredol ar gyfer gweithredu'r cynllun newydd.<br><br>Yn ogystal â datblygu meddalwedd, bydd angen gweithredu cynllun cyfathrebu i ddarparu cyhoeddusrwydd a gwybodaeth i'r cyhoedd yn gyffredinol ac i'r rhai sy'n cael eu heffeithio yn benodol a rhagwelir ysgrifennu'n uniongyrchol at dros 11,000 o hawlwyr presennol, addasu gwefan y Cyngor a gwneud cyflwyniadau i bartneriaid y Cyngor, megis Y Ganolfan waith, Gwasanaeth Pensiwn, CAB, Cymdeithasau Tai, ac amryw o fforymau eraill.<br>O ran y swyddogaeth trethi lleol yn ei gyfanrwydd (casglu treth gyngor, treth fusnes a budd-daliadau treth cyngor) gwariant Gwynedd ydi'r 3ydd uchaf ymhlith y 9 cyngor yn y "teulu". (£17.85 fesul annedd yn erbyn canolrif o £15.24). | | 59,000 | Yr adran i flaenoriaethu cyllido pryniant y meddalwedd. Mae'r ymgyrch cyfathrebu yn digwydd eleni. | 0 | 0 |
| CYLL2 | Sicrhau sylw priodol i'r trethdalwyr effeithir gan gyflwyno'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor (sy'n disodli Budd Dal Treth Cyngor) ar 1 Ebrill 2013. | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid<br>Anthony V Jones, Uwch Reolwr Refeniw | Cyflogi dau swyddog i roi cyngor ac arweiniad i drethdalwyr fydd yn gorfod talu treth cyngor am y tro cyntaf, er mwyn lleihau'r angen i erlyn am symiau bychan iawn, a chan gynnig cymorth i bobl tra bregus. Bydd disgwyl sylfaenol i'r Cyngor gasglu ac adfer £2m o dreth cyngor ychwanegol a hynny yn effeithio holl achosion cyfredol budd dal treth cyngor (11,000 achos) gan na warchodir yr un math o hawliwr o dan y gyfundrefn newydd. Rhagwelir mai balansau cymharol fychan fydd 75% o'r achosion i'w casglu.<br>Bwriedir cynnig cyngor ac arweiniad cynnar i drethdalwyr fydd yn talu treth Cyngor am y tro cyntaf, er mwyn lleihau'r angen i erlyn am symiau bychan iawn, a chan gynnig cymorth i bobl tra bregus.<br>O ran y swyddogaeth trethi lleol yn ei gyfanrwydd (casglu treth gyngor, treth fusnes a budd-daliadau treth cyngor) gwariant Gwynedd ydi'r 3ydd uchaf ymhlith y 9 cyngor yn y "teulu". (£17.85 fesul annedd yn erbyn canolrif o £15.24) | 40,440 | | Ariannu'r bid i sicrhau gwasanaeth cynghori i drigolion mewn sefyllfa fregus. Y cyllid i'w ryddhau yn 2014/15 yn ddibynnol ar ddyfodol cyllid Llywodraeth Cymru. | 40,440 | |

| Rhif | Rheswm tros y bid | Person Cyfrifol | Amlinelliad o'r Mater | Manylion y bid a ddaeth i law | | Argymhelliad | Symiau Argymhellir | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) |
| CYLL3 | Sicrhau adnodd i ddelio'n briodol â addasiadau i bolisi rhyddhad trethi busnes yn dilyn adolygiad yr Athro Morgan, ynghyd â sicrhau sylw i'r cam arfaethedig i godi premiwm treth cyngor ar dai gwag hir dymor, dyddiad effeithiol y 2 agwedd yn 1 Ebrill 2013. | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid<br>Anthony V Jones, Uwch Reolwr Refeniw | Adnodd i ddelio ag addasiadau i bolisi rhyddhad trethi busnes yn dilyn adolygiad y Llywodraeth Cymru mewn perthynas a chodi premiwm ar dai gwag hir dymor Bydd rheoliadau yn eu lle yn fuan, yn bur debyg yn effeithiol o'r 1 Ebrill 2013.<br>O ran y swyddogaeth trethi lleol yn ei gyfanrwydd (casglu treth gyngor, treth fusnes a budd-daliadau treth cyngor) gwariant Gwynedd ydi'r 3ydd uchaf o ran gwariant ymhlith y 9 cyngor yn y "teulu". (£17.85 fesul annedd yn erbyn canolrif o £15.24). | 20,220 | | Cyllido oddi mewn i adnoddau presennol yr Adran. | 0 | 0 |
| CYLL4 | Gofynion ariannol a chyfrifo ychwanegol ar gyfer trefniadau cyd-weithio. | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid<br>William E Jones, Uwch Reolwr Cyllid | Adnodd staffio dros dro yn flynyddol i ymateb i'r gofyniad am gynnal cyfrifon ar wahân, cynhyrchu cyfrifon terfynol a datganiad o'r cyfrifon ar wahân a llawn ar gyfer rhai amgylchiadau cyd-weithio, ac yn benodol endid fel cydbwyllgor.<br><br>Mae'r amserlen cynhyrchu a chwblhau cyfrifon blynyddol yn un heriol iawn fodd bynnag, ac fe ragwelir na fydd modd cynnwys yr holl waith ychwanegol yma a'r ymhlygiadau ariannol ychwanegol perthnasol o fewn yr adnoddau adrannol presennol. | 20,000 | | Cyllido fel rhan o achosion busnes y cynlluniau cydweithio perthnasol. | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Adran Cyllid** | | | | **80,660** | **59,000** | | **40,440** | **0** |
| | | | | | | | | |
| **Adran Democratiaeth a Chyfreithiol** | | | | | | | | |
| DC1 | Cyflwyno Cofrestru Etholwyr Unigol | Dilys Phillips<br>Iolo P Roberts | Adnoddau staffio a choastau atodol ychwanegol i ymateb i'r gofyn statudol am drefn lle mae pob unigolyn yn gorfod cael ei gofrestru yn unigol ar y gofrestr etholwyr yn hytrach na'r drefn bresennol o gofrestru unigolion ar sail eiddo erbyn 2016.<br>Mae'n debyg y bydd bid ychwanegol yn 2014/15.<br>O ran pennawd Etholiadau (sy'n cynnwys cofrestru etholwyr yn ogystal â chost yr etholiadau eu hunain):- gwariant Gwynedd ydi'r 6ed uchaf ymhlith y 9 cyngor yn y "teulu". (£2.45 fesul etholwr yn erbyn canolrif o £3.20). | | 18,995 | Adran i gyllido, gan fod tanwariant ar y gyllideb bresennol. | 0 | 0 |
| DC2 | Swyddog Cydraddoldeb Anabledd | Dilys Phillips<br>Siôn Huws | Penodwyd Swyddog Cydraddoldeb Anabledd i weithio gyda gwasanaethau er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd â'i ddyletswyddau o dan y Ddeddfwriaeth Anabledd. Cyllid tymor byr oedd mewn lle, ac ar ôl i'r cytundeb ddod i ben ym mis Mai 2011 ariannwyd y swydd o arian wrth gefn yr Adran Strategol a Gwella. Trosglwyddwyd y swydd i'r Adran Democratiaeth a Chyfreithiol yn ystod 2012-13, ynghyd â swm o arian i ariannu'r swydd hyd nes diwedd y flwyddyn honno yn unig. Un o ofynion statudol y Ddeddf yw ymgysylltu ac mae'r swyddog yn gyfrifol am y Grŵp Craidd Anabledd, sy'n cynrychioli barn defnyddwyr ar waith y Cyngor. Mae hefyd yn bwynt cyswllt gyda'r Grwpiau Mynediad, sy'n rhoi barn arbenigol pobl anabl ar hygyrchedd yr amgylchedd lleol. Mae'r elfennau yma yn mynd tu hwnt i gydymffurfiaeth statudol drwy sefydlu dolen gyswllt annibynnol rhwng pobl anabl a'r Cyngor, gan sefydlu perthynas gyson a phositif a darparu strwythur cadarn i rannu gwybodaeth. | 34,371 | | Ariannu'r swydd yn barhaol | 34,370 | 0 |
| DC3 | Trefn gwynion y Cyngor | Dilys Phillips a Gwenan Parry<br>Sion Huws ac Idris Jones | Adnodd ychwanegol i ymateb i ofyniad Llywodraeth Cymru sydd wedi cyhoeddi Polisi Cwynion Gwasanaethau Cyhoeddus yn anelu at gyflwyno trefn gwynion gyson a chydnabyddedig ymhob corff cyhoeddus, yn hytrach na'r trefniadau presennol sydd yn amrywio rhwng Adrannau. | 27,753 | | Y gwasanaethau i ail-ddylunio trefniadau oddi mewn i'r adnoddau cyfredol. | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Adran Democratiaeth a Chyfreithiol** | | | | **62,124** | **18,995** | | **34,370** | **0** |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| **Adran Gofal Cwsmer** | | | | | | | | |
| GC1 | Uwchraddio meddalwedd pendesg | Gwenan Parry<br>Huw Ynyr | Uwchraddio meddalwedd y Cyngor, trwy gynllun lesio meddalwedd Microsoft. Oni ellir uwchraddio, gall problemau sylweddol godi yn sgil cytundebau cyfnewid gwybodaeth gydag asiantaethau eraill, a chan na fydd y darparwr yn fodlon cynnal y meddalwedd. | 175,838 | | Ariannu'r bid er mwyn sicrhau parhad y trefniadau trwyddedu meddalwedd a chyfnewid gwybodaeth. | 175,840 | 0 |
| GC2 | Cwrdd ag anghenion cynnydd mewn darpariaeth TG | Gwenan Parry<br>Huw Ynyr | Dwy swydd ychwanegol i ymateb i gynnydd sylweddol mewn darpariaeth TG, ac i ymestyn oriau agor y Ddesg Gymorth am awr ychwanegol. Mae'r nifer o alwadau y mae'r ddesg gymorth yn ei dderbyn wedi treblu yn y chwe blynedd diwethaf, a bu cynnydd hefyd yn y nifer o ddyfeisiadau a chymhlethdod yr arlwy newydd. Mae'r Uned bellach yn cefnogi PDA's, ffonau symudol a thabledi cyfrifiadurol, yn ogystal a chefnogi gweithio o gartref . Nid oes capasiti digonol o fewn y Tim i wneud y gwaith arloesi a datblygol sy'n angenrheidiol i gael y budd mwyaf o'r datblygiadau technolegol. | 74,086 | | Blaenoriaethu adnoddau o fewn yr Adran. | 0 | 0 |
| GC3 | Diweddaru Asesiadau Asbestos | Dafydd Gibbard /<br>Catrin Love | Mae'r bid yma am waith newydd, sef gwella a diweddaru'r wybodaeth am leoliad asbestos yn adeiladau'r Cyngor. Mae'r gwaith gwreiddiol o adnabod ei leoliad wedi ei gwblhau rhwng 2004- 2008. Mae'r cofnod yma bron yn 10 oed mewn rhai achosion felly ac ers 2010 mae gofynion newydd ynglyn â beth sy'n rhaid ei archwilio. | | 300,000 | Ariannu o'r Cynllun Rheoli Asedion gan leihau'r ddarpariaeth Cynnal a Chadw. | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Adran Gofal Cwsmer** | | | | **249,924** | **300,000** | | **175,840** | **0** |

# Atodiad A - Bidiau Refeniw 2013-14

| Rhif | Rheswm tros y bid | Person Cyfrifol | Amlinelliad o'r Mater | Manylion y bid a ddaeth i law | | Argymhelliad | Symiau Argymhellir | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) |
| | | | | | | | | |
| **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | | | | | | | |
| PB1 | Twnel Caernarfon | Gwyn Morris Jones<br>Colin Worth | Cyfrifoldeb am oleuadau'r Twnel wedi ei drosglwyddo i'r Adran gyda chyfrifoldeb am gynnal y goleuadau/offer trydanol, TCC a.y.y.b. Mae yna gynnydd sylweddol yn y gost o drydan ac mae'r cais ar gyfer cwrdd â'r gost.<br>Pennawd Goleuo Strydoedd: Gwariant Gwynedd ydi'r 3ydd uchaf ymhlith y 9 awdurdod yn y "teulu". (£101.63 fesul golau stryd yn erbyn canolrif o £89.82). | 25,000 | | Effaith gweddol fychan yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol a maint cyllideb y maes hwn. | 0 | 0 |
| PB2 | Cynnydd yn y Rhwydwaith Ffyrdd | Gwyn Morris Jones<br>Steffan Jones | Mae hyd ffyrdd dros y tair mlynedd diwethaf wedi cynyddu o ganlyniad i newidiadau yn y rhwydwaith Ffyrdd Sirol e.e. ffyrdd osgoi, ffyrdd di-ddosbarth, mabwysiadu ffyrdd ystadau ayyb.<br>Gwariant Gwynedd ydi'r 6ed uchaf ymhlith y 9 awdurdod yn y "teulu". (£1,145 fesul km ffordd yn erbyn canolrif o £1,226). | 33,037 | | Effaith gweddol fychan yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol a maint cyllideb y maes hwn. | 0 | 0 |
| PB4 | Rheoli Risg Coed yn Syrthio (Gwaith Bwrdeistrefol) | Gwyn Morris Jones<br>Alun Wyn Jones | Cynnal archwiliadau a gwaith trin a diogelu coed ar dir agored Bwrdeistrefol ar draws y Sir yn unol a Pholisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i Reoli Risg o Coed yn Syrthio. | 8,000 | | Effaith gweddol fychan yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol a maint cyllideb y maes hwn. | 0 | 0 |
| PB5 | Pont Abermaw – Les Network Rail | Gwyn Morris Jones<br>Amanda Murray | Nid yw hwn yn wasanaeth sy'n hunan-gynhaliol bellach gan fod problemau staffiodiweddar yn gorfodi newid i'r ddarpariaeth drwy beidio codi toll ac felly bydd angen am yr hawl o lesu'r bont gan Network Rail. Mae'n rhan o Lwybr Arfordir Cymru. | 30,000 | | Effaith gweddol fychan yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol a maint cyllideb y maes hwn. | 0 | 0 |
| PB8 | Strategaeth Wastraff | Gwyn Morris Jones<br>Steffan Jones | Parhad o'r strategaeth wastraff gytunedig, ac am elfennau ychwanegol i ymdrin a matresi, carpedi a rwbel. Mae'r bid yn llai na'r hyn a ragwelwyd yn y Strategaeth wreiddiol am y flwyddyn hon, sef £563,000. | 176,050 | 82,370 | Ariannu i adlewyrchu gofynion diwygiedig y Strategaeth Wastraff gytunedig | 176,050 | 82,370 |
| **Cyfanswm Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | | | **272,087** | **82,370** | | **176,050** | **82,370** |
| | | | | | | | | |
| **Adran Rheoleiddio** | | | | | | | | |
| RH1 | Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn | Aled Davies<br>Nia Haf Davies (Rheolwr Cynllunio Polisi – Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd) | Mae Gwynedd a Mon yn cydweithio'n ffurfiol ar fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol ac yn rhannu'r costau ar sail 50/50.Cais am arian i sicrhau cyfraniad Gwynedd i gynnal a chwblhau'r broses o baratoi CDLl ar y cyd .<br>Pennawd Polisi Cynllunio. Gwariant Gwynedd ydi'r 5ed uchaf ymhlith y 9 awdurdod yn y "teulu" (h.y. ar y canolrif sef £4.61 fesul pen). | | 119,901 | Ariannu er mwyn sicrhau bod y cynllun strategol allweddol hwn yn ei le erbyn 2016. | 0 | 119,900 |
| RH2 | Llwybr yr Arfordir | Aled Davies<br>Wyn Williams | Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan eu bwriad i gefnogi awdurdodau lleol i gyllido costau staff, cynnal a chadw a datblygu pellach pan ddaw'r rhaglen bresennol i be 31 Mawrth 2013. Fodd bynnag, bydd disgwyl i'r awdurodau lleol gyfrannu 25% o'r costau. Amcangyfrifir mai £62,500 fydd y gost i Gyngor Gwynedd ond mae £15,000 eisoes mewn llaw yn y gyllideb bresennol. | 47,500 | | Rheoliadau ariannol yn nodi fod gwasanaethau yn gyfrifol am gwrdd a goblygiadau refeniw unrhyw gynlluniau twf a fabwysiedir. | 0 | 0 |
| RH5 | Gwasanaethau Bysiau | Aled Davies<br>Dafydd W. Williams | Mae risg sylweddol wedi ei amlygu yn codi o'r toriad grant LTSG ac o'r drefn a ddefnyddir gan y Llywodraeth i ddosrannu cymhorthdal i wasanaethau cludiant. Er nad ydym, ar hyn o bryd yn gwybod be fydd toriad LTSG gan y Llywodraeth, mae toriad yn sicr o ddigwydd. Eleni roedd son am doriad o 28%, gafodd wedyn ei leihau i 10%. Mae hyn yn gyfystur ac oddeutu £62,350 am y flwyddyn 2012-13. Mae potensial o doriad hyd at 20% yn 2013-2014 sydd yn gyfystur ac oddeutu £120,000 ychwanegol. Mae hefyd bwriad i dorri grantiau i gwmniau bysiau ar eu lwfans tanwydd, fydd gyda potential uchel o effeithio phrisiau sybsidi rhai gwasanaethau. Ni ellir darogan yr effaith ariannol yma ar wasanaethau ar hyn o bryd ac fe allai hyn arwain at fidiau pellach yn y dyfodol, efallai o fewn blwyddyn ariannol.<br>Pennawd Cludiant Cyhoeddus. Gwariant Gwynedd ydi'r 3ydd uchaf ymhlith y 9 yn y "teulu" (£18.42 fesul pen yn erbyn canolrif o £13.39) | 182,350 | | Angen edrych yn fanwl ar y maes hwn yn sgil yr holl newidiadau arfaethedig mewn grantiau. | 0 | 0 |
| RH8 | Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Mon – Capasiti'r Tim CDLl | Nia Haf Davies (Rheolwr Cynllunio (Polisi) Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Mon | Yn hanesyddol, ariannwyd un o swyddi CDLl gan arian grant. Nid oes sicrwydd y bydd yr arian hwn ar gael ar gyfer 2013/14.<br>Pennawd Polisi Cynllunio. Gwariant Gwynedd ydi'r 5ed uchaf ymhlith y 9 awdurdod yn y "teulu" (h.y. ar y canolrif sef £4.61 fesul pen). | 75,660 | | Ariannu am 2 flynedd - bydd elfen o'r grant ar gael a allai gael ei gyfeirio i'r pwrpas hwn, ac felly bydd yr Adran yn ariannu unflwyddyn o gyflogaeth y swydd. | 0 | 75,660 |
| **Cyfanswm Adran Rheoleiddio** | | | | **305,510** | **119,901** | | **0** | **195,560** |
| | | | | | | | | |
| **Adran Tai,Gwasanaethau Cymdeithasol a Hamdden** | | | | | | | | |
| GCT2 | Effaith cau Canolfan Bro Dysynni, Tywyn dros do oherwydd gwaith cynnal a chadw | Morwena Edwards<br>Gwenno Williams | Cais i ddigolledu'r Gwasanaeth am golli incwm tra bydd Canolfan Hamdden Dysynni ar gau am 4-5 mis yn ystod gwaith cynnal a chadw angenrheidiol. Mae'r swm yn seiliedig ar incwm y cyfnod cyfatebol llynedd, net o unrhyw ostyngiad yn y costau yn ystod y cyfnod cau.<br>Pennawd "Hamdden a Chwaraeon". Gwariant Gwynedd ydi'r 2il uchaf ymhlith y 9 awdurdod yn y "teulu"o ran gwariant fesul pen o'r bopblogaeth - £31.97 yn erbyn canolrif o £24.73. | | 73,000 | Ariannu i sicrhau incwm y gwasanaeth tra bydd y gwaith yn mynd rhagddo. | 0 | 73,000 |

## Atodiad A - Bidiau Refeniw 2013-14

| Rhif | Rheswm tros y bid | Person Cyfrifol | Amlinelliad o'r Mater | Manylion y bid a ddaeth i law: Parhaol (£) | Manylion y bid a ddaeth i law: Unwaith ac am byth (£) | Argymhelliad | Symiau Argymhellir: Parhaol (£) | Symiau Argymhellir: Unwaith ac am byth (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GCT3 | Ffioedd Preswyl a Nyrsio | Morwena Edwards<br>John Trefor Williams | Adolygwyd ffioedd Preswyl a Nyrsio yn Hydref 2011 a phenderfynwyd eu cynyddu mewn tri rhanddaliad. Dyma'r cais am y trydydd rhanddaliad.<br>Gwariant Gwynedd yw'r 2il uchaf ymhlith y 9 yn y "teulu" (£882.98 fesul poblogaeth dros 65, yn erbyn canolrif o £796.83). Oherwydd maint y gwasanaeth yma mae'r gwahaniaeth yma yn un sylweddol mewn termau ariannol, yn cyfateb i tua £2.2m uwchlaw'r canolrif. | 250,200 | | Ariannu i gydnabod yr ymrwymiad a wnaed. | 250,200 | 0 |
| GCT4 | Bidiau Cyfnod Trosiannol 18+ | Morwena Edwards<br>Ann Lloyd Jones – Uwch Reolwr Gwasanaeth Oedolion<br>Ceryl Teleri Davies– Rheolwr Gwasanaeth Oedolion (Iechyd Meddwl ag Anabledd Dysgu) | Cais am gyllid i ariannu pecynnau gofal dwys iawn ym maes anableddau dysgu yn dilyn trosglwyddo'r unigolion dan sylw o'r Gwasanaeth Plant yn 18 oed. Mae'r swm yma yn deillio o anghenion dwys iawn iawn y cleientiaid dan sylw.<br>Pennawd Gwas Cym Anabledd Dysgu (Oedolion rhwng 18-64 oed). Gwariant Gwynedd yw'r 4ydd uchaf ymhlith y 9 yn y "teulu" (£164.93 fesul poblogaeth 18-64 oed, yn erbyn canolrif o £164.22). | 695,000 | | Ariannu i adlewyrchu'r gofynion dwys iawn ychwanegol ar y Gwasanaeth Oedolion. Mae darpariaeth o £171,000 eisoes wedi ei wneud at bwrpasau demograffi, a rhagwelir tanwariant o leiaf o £50,000 ar anableddau dysgu. | 474,000 | 0 |
| GCT7 | Swyddog Gofal Cwsmer a Dyletswydd (Sirol) | Awen Morwena Edwards<br>Iona Griffith<br>. | Fel rhan o ddatblygu Derwen sef Tim Integredig Plant Anabl Gwynedd, llwyddwyd i sefydlu swydd sirol Swyddog Gofal Cwsmer a Dyletswydd trwy gyllid blwyddyn drosiannol Teuluoedd Iyn Gyntaf. Mae'r swyddog yn gweithio'n agos iawn efo teuluoedd ar ôl i'r cyfeiriad gael ei dderbyn, trefnu asesiad cychwynnol a'r cyfarfod cynllunio cyntaf aml-asiantaethol, cadw mewn cysylltiad yn ddiweddarach a chydweithio gyda staff perthnasol eraill. Ni fydd y swydd yn gymwys am arian Teuluoedd yn Gyntaf dan y drefn newydd.<br>Yn y categori "Comisiynu a gwaith cymdeithasol" o fewn Gwas Cym Plant, gwariant Gwynedd ydi'r 2il uchaf ymhlith y 9 yn y "teulu" (£192.09 fesul poblogaeth dan 18, yn erbyn canolrif o £148.80). Maes Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yn gwario'n uchel yn gyffredinol mewn cymhariaeth â'r "teulu", yn gyfystyr â tua £3.5m uwchlaw'r canolrif. | 40,510 | | Grant yn dod i ben - yn unol â'r trefniant arferol, yr Adran i wneud darpariaeth | 0 | 0 |
| GCT8 | Swyddog Gwasanaeth Cefnogol | Awen Morwena Edwards<br>Iona Griffith | Cais am arian i gyllido Swyddog Gwasanaethau Cefnogol ychwanegol i leihau pwysau ar staff presennol a lleihau'r risg o ddadgofrestru gan AGGCC. Byddai un swyddog arall yn sicrhau bod pob gweithiwr cefnogol yn cael goruchwyliaeth rheolaidd; bod asesiad risg cyfredol ar gyfer pob plentyn a gweithgaredd; bod y Swyddogion Gwasanaeth Cefnogol yn gallu cyflwyno gweithwyr i'r plentyn a monitro'r ddarpariaeth yn ddigonol.<br>Yn y categori "Comisiynu a gwaith cymdeithasol" o fewn Gwas Cym Plant, gwariant Gwynedd ydi'r 2il uchaf ymhlith y 9 yn y "teulu" (£192.09 fesul poblogaeth dan 18, yn erbyn canolrif o £148.80). Maes Gwas Cym Plant yn gwario'n uchel yn gyffredinol mewn cymhariaeth â'r "teulu", yn gyfystyr â tua £3.5m uwchlaw'r canolrif. | 34,371 | | Ariannu i adlewyrchu'r twf yn y galw, y cynnydd yn nifer y staff cefnogol a'r gofynion goruchwylio ychwanegol ddaw yn sgil hyn. Rhan o'r adolygiad *cychwyn i'r diwedd.* | 34,370 | 0 |
| GCT9 | Nifer cleientau Plant Mewn Angen a Phlant Mewn Gofal | Awen Morwena Edwards<br>Sharron Williams Carter/Aled Gibbard Est 2714/2713 | Dros y blynyddoedd diwethaf, fe welwyd twf yn nifer y ceisiadau am wasanaeth, cynnydd yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn ogystal â chynnydd yn y niferoedd o achosion plant mewn angen. Yn sgîl hyn fe welwyd cynnydd hefyd yn y nifer uchel o achosion llys cymhleth, ymweliadau statudol a'r angen i gwblhau asesiadau craidd a chynnal adolygiadau statudol. Gwneir cais am un swydd gweithiwr cymdeithasol ychwanegol i gyfarfod â'r gofyn cynyddol a chais am gyllid i gefnogi achosion a'r gofyn statudol ar y gwasanaeth i ddarparu cefnogaeth i deuluoedd ee hybu cyswllt plant mewn gofal. Cost gweithiwr - £43,010 a chostau eraill ar gyfer cefnogi achosion - £43,320 sef cyfanswm £86,330.<br>Plant mewn Gofal: Mae gwariant Gwynedd yr uchaf ymhlith y "teulu" o 9 (£357.52 fesul poblogaeth dan 18, yn erbyn canolrif o £197.11). Mae hyn yn gyfystyr â thua £3.7m mewn cyfanswm, h.y. y categori yma sydd fwy neu lai'n egluro y lefel gwariant uchel ar Gwas Cym Plant yn ei gyfanrwydd. | 86,330 | | Ariannu'r gweithiwr cyhwanegol i adlewyrchu'r twf yn y galw, a chostau eraill; unwaith ac am byth nes bydd canlyniad yr adolygiad *cychwyn i'r diwedd* ar gael. | 43,010 | 43,320 |
| GCT10 | Gweithwyr Allweddol Oed Trosglwyddo | Awen Morwena Edwards<br>Iona Griffith<br>01286 674686 | Cais i gynnal y cynllun gweithwyr allweddol ar gyfer pobl ifanc sy'n trosglwyddo i wasanaethau oedolion gan fod oes y grant gwreiddiol wedi dod i ben a'r cyllid ERF ychwanegol hefyd yn dod i ben Mawrth 2013..<br>Mae'r cynllun hwn yn cynnig cymorth i bobl ifanc drosglwyddo i'r gwasanaeth oedolion. | 45,380 | | Grant yn dod i ben - yn unol a'r trefniant arferol, yr Adran i ystyried gwneud darpariaeth | 0 | 0 |
| GCT12 | Deddf LASPO 2012 | Morwena Edwards<br>Aled Gibbard | Cais am arian i ymateb i ofyn deddfwriaethol newydd. O Ebrill 2013 bydd y cyfrifoldeb ariannol ar gyfer remand diogel yn cael ei ddatganoli. Bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn parhau i gomisiynu lleoedd carchar, ac yn penderfynu ble i leoli pobl ifanc sy'n cael eu remandio i ddalfa diolgel, ond byddent yn anfonebu awdurdodau lleol am y gost.<br>Mae'r ffigwr wedi ei seilio ar gyfartaledd nifer yr achosion perthnasol yn y tair blynedd diwethaf. | 53,990 | | Disgwyl eglurder ar ddatganoli cyllid ac argaeledd grant. | 0 | 0 |

# Atodiad A - Bidiau Refeniw 2013-14

| Rhif | Rheswm tros y bid | Person Cyfrifol | Amlinelliad o'r Mater | Manylion y bid a ddaeth i law | | Argymhelliad | Symiau Argymhellir | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) |
| GCT13 | Swyddog Adolygu/Cadeirio | Awen Morwena Edwards<br>Eleri Ellis Evans<br>Est 2507 | Cais am arian i greu swydd cadeirydd annibynnol ar gyfer adolygiadau statudol plant mewn gofal a chynadleddau achos er mwyn ymateb i'r cynnydd mewn adolygiadau. Mae nifer yr adolygiadau wedi cynyddu o 354 i 459 yn y tair blynedd diwethaf, ac mae angen y swydd hon i sicrhau cynnydd yn y perfformiad, ac hefyd i ymgymryd a rol sicrwydd ansawdd. | 48,970 | | Yr Adran i flaenoriaethu'r adnodd sydd eisoes ar gael. | 0 | 0 |
| GCT14 | Swyddog Cynorthwyol Cynllun Lesu Sector Preifat | Morwena Edwards<br>Susan Griffith | Yr angen i barhau i gyflogi Swyddog Cynorthwyol Cynllun Lesu pan fydd y cytundeb yn dod i ben diwedd mis Rhagfyr 2012 , ar sail barhaol a llawn amser. Penodwyd Swyddog Cynorthwyol Cynllun Lesu yn Hydref 2010 wedi ei ariannu gydag arian bid ar sail dros dro, rhan amser, 18.5 awr yr wythnos am ddwy flynedd. Mae'r Adran wedi llwyddo i ymestyn y cytundeb tan Rhagfyr 2012 ac i'w gnweud yn llawn amser ers Mawrth 2012. Cynllun Lesu wedi cyfrannu at arbedion sylweddol ar wariant gwely a brecwast ers 2006. | 22,700 | | Cyllido'r swydd yn barhaol . | 22,700 | |
| GCT16 | Cais am swydd newydd – Cefnogi Pobl | Awen Morwena Edwards<br>Arwel W Owen<br>Sheila Phillips | Cais am arian i gyllido swydd o fewn yr Uned Cefnogi Pobl yn dilyn trosglwyddo cyfrifoldeb am Grant Refeniw Cefnogi Pobl £2.6 miliwn i awdurdodau lleol ei weinyddu. | 35,370 | | Effaith gweddol fychan yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol a maint cyllideb y maes hwn. | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Adran Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol a Hamdden** | | | | **1,312,821** | **73,000** | | **824,280** | **116,320** |
| | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | **2,410,373** | **714,200** | | **1,265,980** | **394,250** |